YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

*Y Parchedicaf Cherry Vann / The Most Reverend Cherry Vann*
*Archesgob Cymru / Archbishop of Wales*
*Esgob Mynwy / Bishop of Monmouth*

Dydd Iau 23ain Hydref 2025

Annwyl Chwiorydd a Brodyr yng Nghrist,

Yn fy araith i'ch Cynhadledd Esgobaethol, siaradais am gadw ein golwg ar Iesu, sylfaenydd a pherffeithydd ein ffydd, wrth inni weithio gyda'n gilydd drwy'r heriau sydd angen eu hwynebu. Pwrpas fy llythyr heddiw yw rhoi diweddariad i chi ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ar ddau o'r heriau hynny.

**Esgob Cadeiriol**

Mae bron i ddau fis ers i'r Esgob Andy ymddeol, ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ganfod pwy ddylai ei olynu fel Esgob Bangor. Mae aelodau'r Coleg Etholiadol wedi cwrdd ddwywaith mewn cyfarfodydd ar-lein, mae dogfennau proffil esgobaethol a thaleithiol wedi'u cynhyrchu ac mae'r swydd wag wedi'i hysbysebu. Awgrymwyd sawl enw, ac mae staff o'r tîm cenedlaethol wedi cysylltu â phob un i'w gwahodd i ganiatáu i'w henwau gael eu hystyried. Gwnaeth rhai hynny, ac yn eu cyfarfod diweddaraf, ystyriodd yr etholwyr y wybodaeth a ddarparwyd.

Roedd yr etholwyr yn ddiolchgar iawn i bob un am ganiatáu i'w henwau gael eu hystyried. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yn ofalus yr heriau sy'n wynebu'r esgobaeth ar hyn o bryd (nad oedd yr un ohonynt wedi'u nodi'n glir yn y proffil esgobaethol), nid oedd y Coleg yn teimlo'n abl i fynd ymlaen â chreu rhestr fer o ymgeiswyr. Penderfynodd y Coleg hefyd nad oedd digon o amser i ail-hysbysebu'r swydd ac i ganiatáu amser i gymryd geirdaon a chynnal gwiriadau diogelu cyn diwedd mis Tachwedd, pan oedd y Coleg Etholiadol i fod i gwrdd ar gyfer yr etholiad. Felly, adroddodd y Coleg hyn i Bwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol er mwyn cael arweiniad ar y camau nesaf.

Mae Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru yn rhoi'r grym i'r Pwyllgor Sefydlog bennu'r dyddiadau y mae'r Coleg Etholiadol yn cwrdd, ar yr amod bod y dyddiadau hynny o fewn chwe mis i'r swydd wag godi. Os na fydd y Coleg yn cwrdd nac yn ethol yn ystod y cyfnod hwn, mae'r hawl i benodi'r esgob nesaf yn trosglwyddo i Fainc yr Esgobion. Yr unig gorff sy'n gallu diwygio neu wrthod y rheolau hyn yw'r Corff Llywodraethol.

Yn marn i, er y gallem archwilio ffyrdd eraill ymlaen, yr angen brys yw gwahodd esgob profiadol, ar sail dros dro, i ddod i Fangor am gyfnod o un i ddwy flynedd, gan ddarparu arweinyddiaeth a sefydlogrwydd ac i weithio gyda chi i gryfhau arweinyddiaeth, cyllid, llywodraethu a rheolaeth. Bydd y rhai a oedd yng Nghynhadledd yr Esgobaeth wedi clywed bod rhai heriau ariannol a threfniadol caled i'w hwynebu. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i'r Corff Llywodraethol gymeradwyo cynnig sy'n awdurdodi'n ffurfiol y cam gweithredu hwn.

Bishopstow, Stow Hill, Casnewydd, De Cymru, NP20 4EA
Bishopstow, Stow Hill, Newport, South Wales, NP20 4EA

*Ffôn / Telephone: 01633 263510*
*E-bost / Email: bishop.monmouth@churchinwales.org.uk*

Felly, rwy'n ysgrifennu at aelodau'r Corff Llywodraethol heddiw i alw cyfarfod arbennig o'r Corff Llywodraethol ar ddydd Mawrth 25 Tachwedd yn Llandudno. Ar y diwrnod canlynol, rwy'n gobeithio cwrdd ag etholwyr esgobaethol Bangor. Os bydd y Corff Llywodraethol yn cymeradwyo'r cam gweithredu a gynigir, byddaf yn gallu trafod hyn ymhellach ag etholwyr esgobaethol, yn ogystal â chanfod ymgeiswyr posibl yn y cyfarfod hwnnw.

**Ysgrifennydd Esgobaethol**

Mae Tŷ Deiniol wedi bod heb Ysgrifennydd Esgobaethol ers bron i ddwy flynedd. Rwy'n ddiolchgar iawn i staff y DBF am eu dyfalbarhad yn ystod y cyfnod hwn. Rwy'n falch o gyhoeddi bod Joanna Thomas, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, wedi cytuno, ar sail dros dro, i ddod yn Ysgrifennydd Esgobaethol gweithredol. Rwyf wedi gwahodd ymddiriedolwyr y DBF i gwrdd â mi ar 4 Tachwedd i drafod y camau nesaf.

Gyda'm gweddïau parhaus a dymuniadau gorau,

+ Cherry Cambrensis